Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Gwneud gwerth cymdeithasol yn rhan o brosesau caffael: astudiaethau achos o'r dull

Yr Athro Jane Lynch, Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd

Mawrth 2024

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn darparu tystiolaeth annibynnol awdurdodol ac arbenigedd i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i nodi ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar ystod eang o heriau polisi, ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n fwyaf arbennig ar ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, ac anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac yn defnyddio ei gwaith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i hybu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n rhoi cyfle i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith Beth sy'n Gweithio y Deyrnas Unedig ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol, ac mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau tystiolaeth ac arbenigedd ychwanegol hyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)


## Arianwyr Craidd

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, ac mae'n benderfynol o feithrin cydberthnasau rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am agweddau allweddol ar fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

Ar gyfer pwy mae'r adroddiad? 4

Diffinio gwerth cymdeithasol 5

**Caffael cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru** 6

**Dewis yr achosion** 7

Themâu'r cyfweliadau 9

**Astudiaethau achos** 10

Achos 1: Mabwysiadu Gyda'n Gilydd 10

Achos 2: ANTZ UK 13

Achos 3: Bute Energy 16

Achos 4: Fframweithiau Bwyd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 19

Achos 5: Gofal Cymdeithasol Oedolion – Cyngor Sir y Fflint 22

Achos 6: Seilwaith – National Highways 25

Achos 7: Deunydd Pecynnu Cynaliadwy – Y Bathdy Brenhinol 28

**Crynodeb o ganfyddiadau'r achosion** 31

Cychwyn ar y daith gwerth cymdeithasol 32

**Casgliad** 34

**Cyfeiriadau** 36

**Atodiad: Safbwynt o Awstralia** 38

# Cyflwyniad

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei lunio gan Ganolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd. Caiff yr adroddiad ei ategu gan gyfweliadau fideo a recordiwyd gan fusnes bach yng Nghymru, 'EatSleep Media', er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau ynghylch gwreiddio llesiant cymdeithasol mewn contractau caffael.

Mae diwygio caffael yng Nghymru (ac yn y DU yn gyffredinol) yn newid yn sylweddol y ffordd y caiff nwyddau a gwasanaethau eu caffael. Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyd-daro â chyflwyno deddfwriaeth newydd: Deddf Caffael 2023; Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023; a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. Mae caffael cymdeithasol gyfrifol wedi datblygu llawer, ac erbyn hyn mae mwy o ddisgwyliadau i gaffael cyhoeddus ganolbwyntio llai ar brosesau a mwy ar sicrhau gwell canlyniadau i'r gymdeithas ac i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnig cyfle na welwyd ei debyg i wella ein dealltwriaeth o werth cymdeithasol a sut y mae'n gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n bwysig nodi bod y pwyslais ar werth cymdeithasol, yn y Deyrnas Unedig, yn gydnaws â Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012. Yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r prif ysgogydd deddfwriaethol. Mae'r Ddeddf hon yn defnyddio termau fel llesiant, gwerth, buddion, a chanlyniadau, sef y cysyniadau a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na gwerth cymdeithasol. Mae'r term gwerth cymdeithasol fel arfer yn cyfeirio at ysgogyddion cymdeithasol (cymunedol), amgylcheddol ac economaidd, ond yng Nghymru mae pwyslais hefyd ar ddiwylliant, hyrwyddo treftadaeth a'r iaith Gymraeg bob cyfle a geir. Yn ogystal, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn hybu Gwaith Teg sy'n ychwanegu dimensiwn arall i fudd cymdeithasol yng Nghymru. Mae Gwaith Teg yn flaenoriaeth strategol iawn yng Nghymru, ac er mwyn dangos cysondeb rhwng y ddwy statud, mae bellach yn rhan o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'i ysgrifennu dan nod Cymru Lewyrchus. Y Ddeddf newydd hon yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud a chaffael yng Nghymru. Mae'n hybu caffael cymdeithasol gyfrifol ac yn sicrhau bod unrhyw waith a gomisiynir gan awdurdodau contractio yn cael ei wneud mewn ffordd deg a chyfrifol gan arwain at well canlyniadau i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

## Ar gyfer pwy mae'r adroddiad?

Nod yr adroddiad hwn yw cefnogi gwaith timau caffael a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'n defnyddio saith achos enghreifftiol i ddangos sut y gellir cyflawni a gwreiddio canlyniadau llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol (gwerth cymdeithasol) drwy arferion caffael. Mae cyfweliadau fideo cysylltiedig yn cynnig dealltwriaeth gyflym a chlir o'r

prif ganlyniadau dysgu ar gyfer pob achos. Cyhoeddir y cyfweliadau hyn yn Saesneg ag is-deitlau Cymraeg.

## Diffinio gwerth cymdeithasol

Yng Nghymru, diffinnir gwerth cymdeithasol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gorfodi cyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor pob penderfyniad. Yng nghyswllt caffael, mae hyn yn cyfeirio at benderfyniadau contract a sicrhau cymaint o fudd cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ag sy'n bosibl ohonynt.

Yn y Deyrnas Unedig, y corff proffesiynol ar gyfer gwerth cymdeithasol yw Social Value UK, sy'n diffinio'n glir beth yw gwerth cymdeithasol a pham y mae'n bwysig.


"*Mae Gwerth Cymdeithasol yn ddealltwriaeth ehangach o werth. Mae'n symud y tu hwnt i ddefnyddio arian fel prif ddangosydd gwerth, gan roi'r pwyslais yn hytrach ar gael pobl i ddeall effaith penderfyniadau ar eu bywydau. Mae safbwynt pobl yn hollbwysig.*

*Bydd sefydliadau bob amser yn creu profiadau da a drwg, ond yn gyffredinol dylent geisio creu effaith gadarnhaol net yn y presennol ac ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Dylent fesur eu heffeithiau a defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud gwell penderfyniadau i bobl*".

Nid yw gwerth cymdeithasol yn gysyniad newydd. Mae'r gwledydd Nordig (Sweden, Norwy, y Ffindir, a Denmarc) yn cael sgorau uchel yn gyson yn y Mynegai Cyfalaf Cymdeithasol (SolAbility, 2023). Mae'r Iseldiroedd a'r Eidal wedi profi eu bod yn gallu cyflawni effeithiau cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol drwy gaffael cymdeithasol gyfrifol. Yn yr Iseldiroedd mae'r pwyslais ar ddatblygu cyflogaeth sy'n cael ei mesur fel adenillion cymdeithasol o fuddsoddi (SROI) yn deillio o gontractau cyhoeddus (Vluggen et al., 2020). Mae'r Eidal yn adeiladu economi gymdeithasol drwy ganolbwyntio ar fentrau cymdeithasol a ffurfio clystyrau neu fentrau cydweithredol (O'Byrne et al., 2015). Yn ychwanegol at hyn, mae Canada (Denny-Smith et al., 2024), a Seland Newydd (Allen, 2021) yn pwysleisio agweddau diwylliannol cynhwysol, gan sicrhau bod anghenion cymunedau brodorol yn cael eu diwallu. Er bod tystiolaeth o gymhwyso gwerth cymdeithasol ym maes caffael i'w gweld mewn llawer o wledydd, mae rhai o'r gweithiau ymchwil y cyfeirir atynt amlaf yn dod o Awstralia, ac yn canolbwyntio ar y diwydiant adeiladu – gweler yr Atodiad am ragor o wybodaeth.

# Caffael cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru

Yn draddodiadol, mae caffael cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru wedi bod yn canolbwyntio ar fuddion cymunedol: creu cyfleoedd ar gyfer gwaith a datblygu sgiliau, yn enwedig targedu grwpiau agored i niwed, megis pobl ag anableddau neu'r rhai sy'n wynebu diweithdra hirdymor.




Mae cysylltiadau ymchwil profedig rhwng gwerth cymdeithasol a chaffael â threialon cychwynnol ym maes adeiladu oherwydd gwerth uwch y contractau hyn (Selviaridis, Luzzini a Carlos, 2023). Yng Nghymru, cyfrifwyd hyn fel yr effaith lluosydd economaidd, h.y., deall faint o bob £1 sy'n cael ei gwario sy'n cael ei hailfuddsoddi er budd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae hyn yn dangos y dylid cydnabod bod caffael cyhoeddus yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas.

Mae angen edrych ar sicrhau canlyniadau llesiant o gontractau caffael yng Nghymru drwy lens Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae sector cyhoeddus Cymru, prif ddefnyddiwr nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael o Gymru â gwariant blynyddol o dros £8 biliwn, hefyd yn cael ei lywio gan **Ddatganiad Polisi Caffael Cymru** (WPPN 01/20) (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cynnwys dyletswyddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar ganlyniadau llesiant sy'n cael eu sicrhau drwy gaffael cyhoeddus. Mae cyrff sector cyhoeddus yn cynnwys Llywodraeth Cymru, 22 Awdurdod Lleol, 7 Bwrdd Iechyd, 3 Ymddiriedolaeth GIG Cymru gyfan, 3 Awdurdod Tân ac Achub, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol, 4 corff addysgol, a sefydliadau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys prifysgolion, colegau, comisiynwyr, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, sefydliadau celf, a chyrff chwaraeon. Nid yw'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ond mae ei hegwyddorion, er enghraifft y ffyrdd o weithio a nodau llesiant, yn dangos arferion da.

# Dewis yr achosion

Y nod yw sicrhau bod yr astudiaethau achos a ddewiswyd, eu manylion, a'u fformat cyflwyno yn ysbrydoli ac yn darparu gwybodaeth i ymarferwyr caffael ynglŷn â sut i wreiddio llesiant cymdeithasol mewn contractau er mwyn cael y budd mwyaf o wariant cyhoeddus. Mae pob achos yn dangos camau amrywiol o'r broses gaffael, o strategaeth a chynllunio i dendro, contractio, a rheoli contractau, a rhennir awgrymiadau da ar gyfer dysgu wedi'i gyfoethogi.

Dewiswyd y saith achos ar gyfer y cyfweliadau fideo drwy ystyried nifer o feini prawf:

- Defnyddio **dull economi sylfaenol i ddewis categorïau gwariant**. Ar gyfer y dull hwn mae angen cyfeirio cyfleoedd ar gyfer twf busnes mewn sectorau diwydiant penodol drwy gaffael cynnyrch a gwasanaethau y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt er mwyn ein cadw'n ddiogel, yn iach, ac yn waraidd. Mae'r sectorau diwydiant hyn, megis tai, addysg a bwyd, yn ffurfio'r economi sylfaenol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021).
- Defnyddio **Cylch Caffael CIPS** – mae'r cylch yn cynnwys 13 cam yn y broses o wneud penderfyniadau (CIPS, 2022). Yr her yw deall sut i wreiddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael drwy ymgysylltu â'r gymuned a chyflenwyr yn ystod gwahanol gamau yn y broses.
- Mae'r adroddiad yn cynnig cydbwysedd rhwng **safbwyntiau timau caffael a chyflenwyr**. Mae'r tri achos cyntaf (1-3) yn cynrychioli safbwynt y cyflenwr. Mae'r pedwar achos olaf (4-7) yn cynrychioli safbwynt timau caffael (ochr y prynwr).

Mae'r saith astudiaeth achos yn cael eu crynhoi yn unol â'r meini prawf hyn yn Nhabl 2 isod.


### Tabl 2: Trosolwg o'r astudiaethau achos

| Rhif | Safbwynt | Categori Gwariant | Sefydliad | Ffocws Gwerth Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflenwr | Gofal Cymdeithasol Plant | Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, Cymdeithas Plant Dewi Sant | Ymwneud a chydweithredu cynnar rhwng y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus. |
| 2 | Cyflenwr | Gwasanaeth | ANTZ | Rhaglen yn cefnogi cyn-droseddwyr ac yn eu helpu i fynd yn ôl i'r gweithle. |
| 3 | Cyflenwr | Ynni | Bute Energy | Pwyslais ar adeiladu ymwybyddiaeth o'r gymuned a mudiadau'r sector gwirfoddol yn y gymuned. |

| Rhif | Safbwynt | Categori Gwariant | Sefydliad | Ffocws Gwerth Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Caffael | Bwyd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Canolbwyntio ar y broses gaffael iawn i ddenu mwy o fusnesau micro, bach a chanolig. |
| 5 | Caffael | Gofal Cymdeithasol Oedolion | Cartref Gofal Marleyfield, Cyngor Sir y Fflint | Canolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cymunedau bregus hyd yn oed drwy gyfnod o argyfwng. |
| 6 | Caffael | Seilwaith | National Highways | Canolbwyntio ar effaith yn hytrach na gwerth – cynnig rhaglen sy'n cefnogi cyn-filwyr ac yn eu helpu i fynd yn ôl i waith. |
| 7 | Caffael | Deunydd Pecynnu Cynaliadwy | Y Bathdy Brenhinol | Cyrchu deunydd pecynnu gan gwmni lleol yn hytrach nag o Tsieina. |

I ddangos sut y gellir gwreiddio gwerth cymdeithasol yn ystod gwahanol gamau o'r broses gaffael, defnyddir Cylch Caffael CIPS (CIPS, 2022) ar gyfer ymarfer mapio, gan gysoni pob astudiaeth achos â gwahanol gamau o'r broses. Caiff pob achos (1-7) ei fapio yn erbyn camau'r cylch, fel y gwelir yn Ffigur 3.

**Ffigur 3 – Achosion wedi'u mapio yn erbyn Cylch Caffael CIPS**



## Themâu'r cyfweliadau

Er mwyn deall sut mae gwahanol sefydliadau yn gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael, defnyddiwyd y pum thema ymchwil a ganlyn i strwythuro'r cyfweliadau.

- Diffinio gwerth cymdeithasol.
- Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau.
- Deall gwerth cymdeithasol yn ymarferol.
- Y graddau y caiff egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eu gwreiddio mewn prosesau caffael.
- Tri awgrym ar gyfer eraill sy'n cychwyn ar y daith gwerth cymdeithasol.

# Astudiaethau achos

## Achos 1: Mabwysiadu Gyda'n Gilydd (Safbwynt Cyflenwr)

Cyfweliad gyda Wendy Keidan, Prif Swyddog Gweithredol, a Jason Baker, Dirprwy Gyfarwyddwr, y ddau o Gymdeithas Plant Dewi Sant

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant, asiantaeth fabwysiadu wirfoddol elusennol fach, yn gweithio'n bennaf mewn sector cyhoeddus mawr. Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, gwasanaeth a grëwyd drwy Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Phrifysgol Caerdydd, yn ymdrech gydweithredol sy'n cynnwys Barnardo's, Adoption UK, a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. O safbwynt caffael, mae'r achos hwn yn dangos sut y gall newid o brynu cefnogaeth seicoleg glinigol yn ôl y galw i gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer proses sy'n gwreiddio cefnogaeth o'r diwrnod cyntaf sicrhau canlyniadau llawer gwell i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

### Diffinio gwerth cymdeithasol

Cyn y gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, roedd tîm arwain Cymdeithas Plant Dewi Sant yn gweld gwerth cymdeithasol fel cysyniad newydd. Mae eu dealltwriaeth wedi gwella'n arw ers hynny, ac mae'r diddordeb cynyddol sy'n cael ei amlygu yn y sector yn cefnogi hynny. Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn diffinio gwerth cymdeithasol fel gwella canlyniadau plant tra'n sicrhau arbedion ariannol a gwerth am arian i randdeiliaid. Mae'r rhai a fu'n cymryd rhan yn y cyfweliad yn credu bod y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth wedi eu helpu i rannu'r cysyniad o werth cymdeithasol yn ddarnau llai drwy i) cyfathrebu ei bwysigrwydd a deall y budd i bob rhanddeiliad, a ii) gwella canlyniadau i blant, ynghyd ag arbedion ariannol hirdymor. Maent yn dweud bod dealltwriaeth ddyfnach o werth cymdeithasol wedi arwain at well perthynas rhwng y cyflenwyr a'r cleient, gan ddod â chanlyniadau hollbwysig i rai o'r plant mwyaf agored i niwed sy'n canfod eu hunain mewn gofal hirdymor er nad oes bai arnyn nhw.

### Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn dadlau na ellir mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) heb ddealltwriaeth ddofn ohonynt. Gallai'r ddealltwriaeth hon leihau'r angen am wasanaethau megis gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed neu atal problemau fel rhoi'r gorau i addysg neu hyfforddiant, sy'n gallu arwain at ddiweithdra a hyd yn oed digartrefedd. Gallai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n gysylltiedig ag amddifadu plant o'u hanghenion sylfaenol, gynnwys gwrthdaro rhwng aelodau o'r teulu, gwrthdaro heb ei ddatrys o fewn perthnasoedd yn y teulu yn arwain at ysgariad, salwch meddwl rhiant, dibyniaeth rhiant ar gyffuriau neu alcohol, neu drais domestig, sydd i gyd yn

cyfrannu tuag at esgeulustod a thrawma cynnar. Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn cefnogi plant sy'n pontio o ofal maeth i ofal mabwysiadu sefydlog. Gall aros mewn gofal maeth hirdymor gael effaith andwyol ar les plant ac arwain at ganlyniadau hirdymor. Mae gofal maeth hefyd yn gostus iawn i'r sector cyhoeddus tra gall mabwysiadu plentyn arwain at o leiaf £1.3 miliwn mewn buddion net i berson ifanc, ei deuluoedd a rhanddeiliaid eraill (Clifford, 2022). Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd wedi llwyddo i ddod o hyd i deuluoedd i 28 o blant a allai fod wedi aros mewn gofal maeth hirdymor, ac amcangyfrifir bod hynny wedi arwain at dros £36 miliwn o Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi, ond yn bwysicach na hynny mae'n arwain at sefydlogrwydd mwy hirdymor i'r plant a gwell canlyniadau yn gyffredinol.

## Heriau wrth gaffael a sut i'w goresgyn

Un o'r penderfyniadau a'r heriau mawr sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth geisio amddiffyn plant sy'n agored i niwed yw penderfynu a ddylid eu cadw mewn gofal maeth hirdymor ynteu eu mabwysiadu – mae'r naill opsiwn a'r llall yn arwain at ddadl bellach, a ddylid rheoli'n fewnol (drwy'r awdurdod lleol) ynteu drefnu contract allanol gan ddefnyddio sefydliadau maethu a mabwysiadu elusennol penodol (Shelton et al., 2020). O ganlyniad, mae sefydliadau fel Cymdeithas Plant Dewi Sant yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle gallent fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r awdurdodau lleol, ac yn achos mabwysiadu, bod angen iddynt gydweithio. Yn y gorffennol mae rhwystrau wedi atal awdurdodau lleol rhag defnyddio mudiadau elusennol – mae hyn yn cynnwys ffyrdd o weithio sydd wedi ymwreiddio, a'r cyfyngiadau cyllidebol difrifol mewn adrannau yn y sector cyhoeddus sydd wedi codi'r cwestiwn a allai'r sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau mewnol o ansawdd da yn hytrach na'u trefnu drwy gontract allanol. Mae rhoi dyfodol y plentyn yn y canol yn golygu y gallai timau caffael archwilio pob dull o gyflawni a dod o hyd i'r un gorau i'r plentyn.

Cynlluniwyd y gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd gan roi pennaf les y plentyn a'r teulu sy'n ei fabwysiadu yn gyntaf cyn dealltwriaeth fanwl o'r strwythur costau mewnol. Mae cyfathrebiadau cynnar â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cylch caffael yn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn costio llawer iawn mwy na'i werth.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o feddylfryd strategol a dyluniad gwasanaethau Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, yn enwedig o ran y ffyrdd o weithio. Mae pob un o'r pum ffordd o weithio a gynigir wedi eu gwreiddio yn y broses o ddarparu gwasanaethau mabwysiadu drwy gynllun Mabwysiadu Cymru 2025. Mae'r dull hirdymor hwn yn creu mwy o gyfleoedd i blant gael eu lleoli yng Nghymru, gan eu galluogi i gael eu magu yn eu diwylliant genedigol. Roedd cydweithredu yn hanfodol ar draws y consortiwm o ddarparwyr gwasanaeth a rhwng y consortiwm a chyrff statudol. O ran integreiddio, roedd y pwyslais ar ganlyniadau llesiant gwell i blant sy'n cael eu mabwysiadu, sydd at ei gilydd yn

well na chanlyniadau plant sy’n cael eu lleoli mewn gofal maeth hirdymor. Mae cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella’r broses fabwysiadu ac integreiddio gwasanaethau maethu a mabwysiadu hefyd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd hirdymor i blant a gwell cefnogaeth i ofalwyr maeth. Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn arweinydd yn y maes hwn, ond mae’n cydnabod bod angen rhagor o ymchwil er mwyn deall effaith mabwysiadu ar les a llesiant y plentyn a’r teulu sy’n ei fabwysiadu. Mae’r Athro Katherine Shelton o Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd yn dal i werthuso ymchwil er mwyn deall y cysyniad o effeithiolrwydd rhieni – h.y., os yw plant yn cael eu cefnogi’n dda, yn cael gofal, a bod ganddynt rieni sy’n dangos empathi, gallant dyfu a ffynnu. I’r perwyl hwn, mae atal yn dod yn bwyslais pwysicach er mwyn galluogi gwell canlyniadau i’r plant a’r teuluoedd mabwysiadu.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau’r daith gwerth cymdeithasol

1. **Adnabod a deall eich marchnad** – Deall y sector rydych yn gweithredu ynddo, nodi cyfleoedd, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall sut y gall eich sefydliad gyfrannu.
2. **Mae cynaliadwyedd ariannol yn allweddol** – Fel asiantaeth fabwysiadu wirfoddol, rhaid i Gymdeithas Plant Dewi Sant sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn golygu datblygu ac adolygu manteision cystadleuol yn gyson.
3. **Ffurfio perthnasoedd pwysig â rhanddeiliaid a dal i’w datblygu** – Defnyddio’r perthnasoedd hyn fel llwyfan i arwain at gyfleoedd eraill.

**Gallwch ddarllen mwy am Gymdeithas Plant Dewi Sant a Mabwysiadu Gyda’n Gilydd yma**

## Achos 2: ANTZ UK (Safbwynt Cyflenwr)

Cyfweliad gyda Jen Pemberton, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd, a Christian Sait, Cyfarwyddwr, ANTZ UK

### Cyflwyniad

Mae ANTZ UK yn elusen ac yn fenter gymdeithasol. Mae ANTZ yn awyddus i fod yn fwy na busnes cyfrifol, a'i nod yw newid bywydau pobl. Mae ANTZ Cymru, a lansiwyd yn 2022, yn darparu gwasanaethau ymgynghori yng Nghymru sy'n cefnogi twf busnes cyfrifol tra'n cael effaith yr un pryd ar gymdeithas.

### Diffinio gwerth cymdeithasol

Mae ANTZ yn diffinio gwerth cymdeithasol fel mecanwaith i leihau costau i gymdeithas a gwella bywydau pobl. Mae'n gweithio orau pan mae'n cael ei arwain gan fusnesau a'i ysgogi gan gymunedau, sy'n allweddol i lwyddiant ANTZ. Fodd bynnag, nid yw cael diffiniad clir o werth cymdeithasol yn ddigon. Rhaid ei weithredu'n iawn hefyd. Mae gan werth cymdeithasol ei risgiau hefyd, ac os nad yw'n cael ei ddeall neu ei reoli'n dda, gall gael effeithiau negyddol annisgwyl ar iechyd pobl a hyd yn oed ar fywydau. Dylai gwerth cymdeithasol fod cyn bwysiced i unrhyw sefydliad â'i frand, gweithwyr, a nodau masnachol. Mae ANTZ wedi datblygu 'fframwaith cyfrifol ANTZ', sy'n galluogi sefydliadau i ddarparu gwerth cymdeithasol mewn modd cyfrifol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan reoli risgiau i unigolion a sefydliadau.

### Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Gall gwerth cymdeithasol ymddangos mewn sawl ffurf, ac er bod y rhan fwyaf o fwriadau yn gadarnhaol, weithiau gall ymdrechion gael effaith i'r gwrthwyneb. Mae ANTZ yn cyfeirio at beryglon 'meddylfryd ticio bocsys', a all ysgogi'r ymddygiad anghywir. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cysoni strategaethau cymdeithasol a masnachol, gan alluogi busnesau i dyfu'n fasnachol tra'n rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Heb fframwaith clir, hyd yn oed â'r bwriad gorau, gall gwerth cymdeithasol achosi risg. Mae un enghraifft yn ymwneud ag unigolyn sydd wedi troseddu am y tro cyntaf:

*Pan oedd y dyddiad rhyddhau yn agosáu, derbyniodd hyfforddiant a chafodd gynnig swydd. Ar ôl iddo gael ei ryddhau, gwnaeth gais am fenthyciad preifat i brynu car er mwyn goresgyn anawsterau teithio i'w waith newydd, a bu'n cysgu ar soffa ffrind er mwyn lleihau pellter teithio. Fodd bynnag, ar ôl iddo gyrraedd y gwaith, dywedwyd wrtho nad oedd y swydd ar gael ddim mwy. Roedd hyn yn golygu bod gan yr unigolyn fenthyciad a dim incwm, ac roedd risg uchel iddo aildroseddu. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach, heb sylweddoli beth oedd wedi digwydd, cysylltodd ANTZ ag ef â'r bwriad o wirio cynnydd. Ar ôl ymchwilio ymhellach gyda'r sefydliad caffael, eglurwyd yn ddiweddarach fod y sefyllfa wedi codi oherwydd bod y*

*busnes wedi gosod nifer penodol o dargedau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol. Y targed gwerth cymdeithasol oedd cyflogi 30 o bobl. Roedd yr unigolyn hwn yn rhif 31 ar y rhestr. Mae'r enghraifft hon yn dangos, heb ddull fframwaith strwythuredig o reoli gwerth cymdeithasol, er gwaethaf bwriadau da, bod cael pethau'n anghywir yn gallu cael effeithiau negyddol andwyol na ellir eu dad-wneud weithiau.*

O ganlyniad i ddigwyddiadau camreoli fel hwn, ac mae'n debyg bod llawer ohonynt wedi bod, mae ANTZ wedi dylunio hyfforddiant gwerth cymdeithasol a fframwaith risg er mwyn rheoli canlyniadau yn well a sicrhau mwy o effaith gadarnhaol.

## Pwysigrwydd rôl busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol yn y gadwyn gyflenwi

Mae busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol yn hollbwysig er mwyn gwreiddio gwerth cymdeithasol. Hyd yn oed os yw cyflenwyr haen un yn ymrwymo i gynlluniau gwerth cymdeithasol, yn aml iawn maent yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi sy'n cynnwys cyfran uchel o fusnesau llai ac elusennau. Gall diffyg safonau neu fframweithiau sy'n cael eu cymhwyso'n gyson arwain at ddull 'gwn gwasgaru', nad yw'n fuddiol i unrhyw randdeiliaid. Mae model ANTZ yn darparu dull strwythuredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cael effaith ar bob parti, yn fasnachol ac yn gymdeithasol. Yn ôl y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliad os nad yw busnes yn tyfu'n fasnachol, ni fydd ganddo'r adnoddau na'r capasiti i gyfrannu'n gymdeithasol. Maent hefyd yn pwysleisio bod elusennau a grwpiau cymunedol yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol, ond bod tuedd i roi amcan rhy isel o'u gwerth a disgwyl iddynt ddarparu gwasanaethau am ddim, er gwaethaf natur hanfodol eu gwaith wrth gefnogi cymunedau sydd ar y cyrion, ac sydd weithiau'n cael eu targedu ag amcanion gwerth cymdeithasol amhriodol.

## Heriau wrth gaffael

Roedd y cyflenwr hwn yn teimlo nad yw'r meini prawf a osodir mewn prosesau caffael yn aml yn gyson â'r gwerth cymdeithasol posibl y gellid ei sicrhau. Er enghraifft, pan oedd tîm caffael yn rhoi contract ar gyfer byw'n annibynnol yn y gymuned yn ymwneud â symudedd, roedd yn canolbwyntio dim ond ar nifer y cerbydau trydan oedd gan y contractwr, gan ei bod yn hawdd rheoli a mesur yr agwedd hon. Roedd y dull gweithredu hwn yn esgeuluso cynlluniau posibl i wreiddio gwerth cymdeithasol ar gyfer y gymuned, gan arwain at gymhellion gwrthnysig, sy'n rhwystro arloesi yn y sector preifat, ac weithiau'n atal busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol rhag bod yn rhan o gadwyni cyflenwi. Mae ANTZ yn credu'n gryf mewn edrych ymlaen ac yn cydnabod bod gwaddol a chydweithredu yn hollbwysig. Mae'r heriau a nodwyd yn yr achos hwn hefyd yn cadarnhau pwysigrwydd y ffyrdd o weithio (cydweithio, cynnwys, atal a meddwl yn yr hirdymor) wrth geisio cyflawni'r nodau llesiant.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Pan sefydlwyd ANTZ Cymru yn 2022, roedd ei waith yn canolbwyntio ar gysoni strategaeth gwerth cymdeithasol y cleient ag un neu ragor o'r saith nod llesiant. Mae ANTZ yn cynorthwyo sefydliadau i ddatblygu strategaeth gwerth cymdeithasol gynaliadwy, gan bwysleisio pwysigrwydd atebolrwydd ac adrodd. Gan fod ANTZ yn frwdfrydig ynglŷn â hyn, lansiodd fenter gymdeithasol o'r enw Technology for Society er mwyn sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei fesur a'i adrodd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn edrych ar daith unigolyn, yn hytrach na mesuriadau ariannol yn unig. Mae'r dull gweithredu hwn yn annog mwy o dryloywder ac atebolrwydd, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Cynyddu gwybodaeth eich sefydliad** am werth cymdeithasol ac ailedrych ar eich strategaeth.
2. **Canolbwyntio ar yr unigolyn** – Mae gwerth cymdeithasol yn fwy nag ymarfer ticio bocsys. Gallai hyfforddiant gwerth cymdeithasol fod yn fan cychwyn da er mwyn cysoni strategaethau masnachol a chymdeithasol eich sefydliad.
3. **Gweithredu dull strwythuredig**. Mae angen i'ch sefydliad ddeall a rheoli risgiau mewnol, yn ogystal â risgiau sefydliadau a chymunedau eraill rydych yn gweithio gyda nhw. Mae fframwaith cadarn a strategaeth sy'n ymestyn drwy eich cadwyn gyflenwi yn creu llwyfan tecach i bobl ledled Cymru.

**Gallwch ddarllen mwy am ANTZ yma.**

# Achos 3: Bute Energy (Safbwynt Cyflenwr)

Cyfweliad gyda Catrin Newton, Cyfarwyddwr Budd Cymunedol, Bute Energy

## Cyflwyniad

Mae Bute Energy yn ddatblygwr parciau ynni gwynt ar y tir ac ynni solar yng Nghymru, sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu ynni adnewyddadwy cost isel. Er ei fod yn gwmni preifat mae'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu nwyddau cyhoeddus. Mae Bute yn canolbwyntio ar ddylunio parciau ynni adnewyddadwy yn benodol ar gyfer Cymru. Mae strategaeth Bute wedi ei hangori mewn egwyddor sylfaenol: denu cymaint ag sy'n bosibl o fuddsoddiad i Gymru er budd cymunedau Cymru.

## Diffinio gwerth cymdeithasol

Mae Bute Energy yn dehongli gwerth cymdeithasol yn unol â'r diffiniad sydd yn Neddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad sector cyhoeddus a'u cyflenwyr ystyried mwy na chost ariannol contract. Rhaid iddynt hefyd ystyried sut y gall y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu ac yn eu caffael wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal. Mae rhai o'r enghreifftiau yn yr achos hwn yn gyson â'r hyn a adnabyddid yn draddodiadol fel buddion cymunedol yng Nghymru.

## Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau a phrosesau caffael

Un o'r prif negeseuon gan Bute i unrhyw un sy'n cychwyn ar ei daith gwerth cymdeithasol yw ei bod yn bwysig cofio nad yw pawb yn arbenigwr mewn gwerth cymdeithasol. Mae'n cynghori y dylech fod yn glir ynglŷn â'ch gofynion a darparu enghreifftiau o'r math o weithgareddau sy'n cael eu hystyried yn werth cymdeithasol. Mae Bute yn pennu hyrwyddwyr mewnol sy'n arbenigo mewn darparu gwerth cymdeithasol a chefnogi'r gwaith o ysgrifennu tendrau. Mae'n gweld bod llawer o gontractwyr bach yn cymhwyso gwerth cymdeithasol yn effeithiol – maent yn cyflogi pobl leol, yn rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau, yn noddi gweithgareddau, ac yn buddsoddi'n lleol yn gyffredinol. Ond nid ydynt bob amser yn gweld y gweithgareddau hyn fel gwerth cymdeithasol.

## Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Pan fyddwch yn cynllunio ar gyfer gwerth cymdeithasol, dylech ganolbwyntio ar anghenion brys y gymuned neu'r cymunedau rydych yn awyddus i fuddsoddi ynddynt. Dylid targedu gwerth cymdeithasol tuag at anghenion uniongyrchol gwahanol gymunedau, ac er mwyn gwneud hyn mae angen ymgysylltu â'r gymuned. Nid yw'n golygu parasiwtio i mewn a cheisio darparu'r atebion sydd eu hangen yn eich barn chi neu geisio ailddyfeisio'r olwyn.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sydd ei angen, ei eisiau ac sy'n angenrheidiol er mwyn i'r gymuned honno ffynnu. Drwy gysoni set sgiliau ac adnoddau eich cwmni, gallwch gyflawni ac ychwanegu gwerth i'r cymunedau hynny.

## Ennyn diddordeb y farchnad gyflenwi mewn gwreiddio gwerth cymdeithasol

Mae Bute wedi datblygu safon gwerth cymdeithasol sy'n rhan o'i broses dendro. Mae'n ymgynghori â chontractwyr ac yn eu harwain i ddatblygu cynllun cyflawni 12 mis o werth cymdeithasol, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar anghenion pob cymuned y mae'n cyflenwi iddi, yn ogystal â'i fuddiannau a'i setiau sgiliau ei hun. Mae contractwyr sy'n mabwysiadu'r safon yn gweithio tuag at gyflawni un o dri dyfarniad Bute: Pen y Fan (yn dangos eu bod yn cychwyn y daith gwerth cymdeithasol); Cadair Idris (yn gweithio tuag at ymrwymiad llawn); yr Wyddfa (y dyfarniad uchaf am gyflawni ymrwymiad a rennir).

Mae Bute yn deall bod unigolion yn fwy tebygol o gyflawni a chyfrannu mwy os oes ganddynt ddiddordeb mewn mater cymdeithasol ac os ydynt yn teimlo'n frwdfrydig ynglŷn ag ef. O ganlyniad, mae Bute yn ceisio cysoni diddordebau a setiau sgiliau personol gweithwyr ag anghenion cymunedol – gan sicrhau bod y cynllun 12 mis yn mynd i'r afael ag anghenion a dyheadau'r gymuned honno.

Mae Bute yn darparu ffordd o gofnodi effaith gwerth cymdeithasol a gynhyrchir drwy weithgareddau amrywiol. Ar ôl hynny mae'n annog dathlu os yw contractwyr yn cyflawni mwy nag a ddisgwylir, gan ffafrio gweithgareddau neu gynlluniau sy'n gadael gwaddol i'r gymuned y maent yn gweithredu ynddi.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Bute Energy yn gweithredu ar sail pum thema a ragwelwyd sydd â chysylltiad agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys helpu a chefnogi cymunedau drwy'r argyfwng costau byw; gwella cyfleoedd addysg, yn enwedig i'r rhai sydd ag anableddau dysgu; gwella cyfleoedd ar gyfer gwaith i bobl mewn cymunedau difreintiedig; gwella diwylliant y sefydliad er mwyn croesawu'r cyfleoedd gwerth cymdeithasol hyn; codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol; a phwysigrwydd hamdden ac iechyd.

Er mwyn dangos pwyslais Bute ar genedlaethau'r dyfodol, mewn partneriaeth â Chynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW STEM Cymru), ymwelodd merched sy'n ddisgyblion chweched dosbarth â swyddfa Bute i ddysgu am rolau amrywiol cydweithwyr benywaidd yn y busnes a'u taith i'r diwydiant STEM. Erbyn hyn mae Bute yn asesydd gwirfoddol i gystadleuaeth prosiect chweched dosbarth ESSW STEM a bydd yn rhan o'r broses feirniadu yn y seremoni wobrwyo ym mis Mawrth eleni. Mae Bute hefyd wedi noddi gwobr y 'Gwerthfawrogiad Gorau o Faterion Amgylcheddol' am yr ail flwyddyn yn olynol.

## Gwerthuso a monitro

Mae Bute yn helpu partneriaid yn y gymuned i gyfiawnhau'r effaith y maent yn ei gael, gan ddangos sut y gallai rhagor o gyllid eu helpu i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y sector elusennol, lle gall elusennau fod yn dda iawn am ddarparu gwasanaethau ond nid cystal am ddathlu effaith eu gwaith.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Peidio ag ailddyfeisio'r olwyn**. Mae llawer o dystiolaeth o achosion sy'n dangos arferion da ar gael.
2. **Targedu'n well** er mwyn galluogi gweithgaredd mwy ystyrlon yn cael ei arwain gan y gymuned leol.
3. **Bod yn uchelgeisiol** – mae cymunedau yng Nghymru yn haeddu ein gweld yn uchelgeisiol â lefel y buddsoddiad sydd ar gael.

**Mae rhagor o wybodaeth am Bute Energy i'w gweld yma.**

# Achos 4: Fframweithiau Bwyd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Safbwynt Caffael)

Cyfweliad gyda Rhys James, Prif Swyddog, a Jemma Ford, Prif Swyddog Perthynas Cyflenwyr, y ddau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn arwain newidiadau pwysig yng Nghymru, gan newid o'r gost isaf i'r gwerth gorau wrth gaffael. Yn hanesyddol, mae'r pwyslais mwyaf wedi bod ar y gost isaf wrth gaffael bwyd mewn llywodraeth leol ac yn y GIG yng Nghymru. Mae bwyd wedi cael ei nodi fel maes twf ar gyfer Gwent, ac mae Cyngor Caerffili ar flaen y gad yng Nghymru o ran dulliau blaengar o gaffael bwyd fel categori gwariant. Mae'r achos hwn yn dangos sut y mae defnyddio dull fframwaith ar gyfer caffael yn galluogi Cyngor Caerffili i ddarparu mwy o werth cymdeithasol, ac yn bwysig iawn, sut mae'r gwerth hwnnw'n edrych yn ymarferol.

## Diffinio gwerth cymdeithasol

Mae Cyngor Caerffili yn diffinio gwerth cymdeithasol fel ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i lesiant cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol y gymuned a'i holl bartneriaid. Mae'n cydnabod bod angen hyblygrwydd a chydweithredu â'r gadwyn gyflenwi er mwyn darparu a mesur gwerth cymdeithasol. Mae ei bolisi gwerth cymdeithasol yn canolbwyntio ar nifer o gynlluniau allweddol, gan gynnwys cefnogi busnesau lleol a busnesau bach a chanolig, adeiladu cyfoeth cymunedau, yr economi sylfaenol, a'r economi gylchol.

## Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau

Ar gyfer y tendr bwyd, dewisodd Cyngor Caerffili ddefnyddio fframwaith TOMS (Themâu, Canlyniadau a Mesurau) Llywodraeth Cymru er mwyn gwreiddio gwerth cymdeithasol (Social Value Portal, 2020). Teimlid bod y dull fframwaith yn berthnasol oherwydd ei fod yn cynnig proses fwy hyblyg na System Brynu Ddynamig (DPS). Roedd caffael bwyd yn galw am benderfyniad buddsoddi mwy hirdymor, ac roedd rhannu gwerth y contract yn golygu y gellid cynnig cyfle i nifer o gyflenwyr gyflenwi'r bwyd. Mae bron i 150 o lotiau mewn gwahanol feysydd nwyddau, sy'n gwneud y dull hwn yn un sydd wedi ennill ei blwyf. Fodd bynnag, roedd yn codi pryderon ynglŷn â chymhwyso gwerth cymdeithasol. Nid yw fframweithiau fel arfer yn darparu gwerth cymdeithasol oherwydd nid ydynt bob amser yn ymrwymo, ac nid oes sicrwydd o waith i'r contractwr. O ganlyniad, addaswyd y fframwaith TOMS er mwyn sicrhau y gallai cyflenwyr lleol gynnig a defnyddio dull mwy strwythuredig ar gyfer gwerth cymdeithasol. Mae meysydd y gwyddys eu bod yn faterion cyffredin yng nghyswllt caffael bwyd yn cynnwys lleihau caethwasiaeth fodern a hybu gwaith teg. Er bod cwestiynau yn

ymwneud â diwydrwydd dyladwy wedi'u cynnwys yn y cam cyn-gymhwyso, ni ellir datrys y materion hyn heb systemau rheoli contractau effeithiol. Mae hwn yn faes y mae Cyngor Caerffili yn dal i'w ddatblygu.

## Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Penderfynodd tîm Cyngor Caerffili yn gynnar ei fod am fabwysiadu dull gweithredu ychydig yn wahanol ar gyfer y fframwaith bwyd gan ei bod yn anodd diffinio gwerth cymdeithasol mewn maes mor eang â bwyd. Gan ddefnyddio'r fframwaith TOMS, canolodd Cyngor Caerffili y broses o wneud penderfyniadau, ac roedd hynny'n helpu rhanddeiliaid eraill i ddeall beth y gellid ei gyflawni mewn nifer o feysydd. Roedd offeryn mesur TOMS yn caniatáu iddynt flaenoriaethu a rhannu mesurau fel canllaw i gyflenwyr a fyddai'n dewis beth y gallent ei gyflenwi. Roedd y caffael yn cynnwys cyfleoedd i gyflenwyr bach a mawr. Byddai'n ofynnol i bob cyflenwr a oedd yn llwyddiannus yn y fframwaith rannu ei Gynllun Cyflawni Gwerth Cymdeithasol, a fyddai'n cael ei ddilyn wedyn yn y broses rheoli contractau.

## Ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi

Y prif ysgogydd i Gyngor Caerffili oedd cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, a arweiniodd at ymarfer cyn ymgysylltu yn y lle cyntaf er mwyn gwneud rhestr o gyflenwyr lleol. Roedd yn awyddus i sicrhau bod pob lot yn cael ei chynnwys yn y fframwaith bwyd. Roedd ymgysylltu â'r farchnad yn hollbwysig o'r dechrau gan fod angen i nifer fawr o gyflenwyr gyflwyno cynigion. Cynhaliodd Cyngor Caerffili nifer o ddigwyddiadau cyn ymgysylltu, clinigau caffael, a digwyddiadau gwerth cymdeithasol er mwyn rhoi cyfle i aelodau o'r gadwyn gyflenwi gyfrannu eu gwybodaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o'r farchnad gyflenwi i dimau caffael, sy'n eu helpu i lunio'r fframwaith, er enghraifft deall y strwythur lotiau sydd ei angen gyda'r nod o annog mwy o fusnesau bach a chanolig i fod yn rhan o'r broses dendro.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae bwyd yn un o'r ychydig gategorïau a all fynd i'r afael â phob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynlluniwyd y farchnad gyflenwi leol a'r fframwaith bwyd â'r manteision hyn mewn golwg, ac roedd cyffro ynglŷn â'r hyn y gobeithid y gallai'r egwyddorion hyn ei gynnig. Ers pandemig coronafeirws (COVID-19) a lansio prydau ysgol am ddim, gwelwyd ymgyrch gref i geisio prynu bwyd yn lleol. Mewn partneriaeth â WRAP Cymru a Maint Cymru, ac elusen ddatgoedwigo yng Nghaerdydd, datblygodd Cyngor Caerffili becyn caffael a fyddai'n berthnasol i fwyd. Mae hwn yn cynnwys diffiniadau ar gyfer cynnyrch datgoedwigo megis eidion, soi, ac olew palmwydd, a oedd wedi'u cynnwys mewn tendrau.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Deall eich maes nwyddau** a sicrhau eich bod yn cysoni eich gofynion gwerth cymdeithasol â'ch gwaith caffael. Sicrhau bod eich prif ysgogyddion ar gyfer gwerth cymdeithasol yn y maes nwyddau yn cael eu cyfathrebu ymlaen llaw i ddarpar gynigwyr drwy gyfleoedd cynnar i ymgysylltu. Cael y gadwyn gyflenwi i fod yn rhan o'r daith er mwyn meithrin arloesi.
2. **Defnyddio arbenigwyr allanol**, a pheidio â phetruso cyn eu defnyddio, ond sicrhau bod y naratif priodol yn cael ei gynnwys yn y dogfennau caffael a bod mecanweithiau yn eu lle ar gyfer gwaith rheoli contractau a gwelliant parhaus.
3. **Cefnogi a chydweithio â'r gadwyn gyflenwi** er mwyn cyrraedd targedau a chydweithio er mwyn datblygu cynlluniau newydd sy'n dod â manteision i'r cleient ac i gyrff sector cyhoeddus eraill.

**Mae rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Fwyd yng Nghymru i'w gweld yma.**

## Achos 5: Gofal Cymdeithasol Oedolion – Cyngor Sir y Fflint (Safbwynt Caffael)

Cyfweliad gyda Neil Ayling, Prif Swyddog Dylanwad Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint.

### Cyflwyniad

Mae'r achos hwn yn canolbwyntio ar Gartref Gofal Marleyfield, sydd wedi cynyddu ei gapasiti ar gyfer pobl hŷn a gwella gofod awyr agored ar gyfer eu llesiant. Mae buddsoddiad gwerth £8.5 miliwn Cyngor Sir y Fflint yng Nghartref Gofal Marleyfield yn enghraifft wych o ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi mewn gwasanaethau hollbwysig. Mae'r cartref gofal yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth preswylwyr oedrannus ac yn dangos ymroddiad Cyngor Sir y Fflint i fuddsoddi arian mewn gwasanaethau hanfodol. Mae'n rhan o ddull Cyngor Sir y Fflint o fynd i'r afael â bregusrwydd y sector gofal yng Nghymru a'r pwysau eithriadol sydd arno. Gan fod y boblogaeth yn heneiddio, a'r anghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth, mae'r galw am gartrefi gofal arbenigol yn debygol o gynyddu. Lluniwyd fframwaith caffael sydd â gwerth cymdeithasol yn rhan annatod ohono, yn cefnogi cylch bywyd yn ei gyfanrwydd, yn gwella'r daith gaffael i brynwyr a chyflenwyr, yn ysgogi twf lleol mewn cymunedau, ac yn sicrhau canlyniadau pendant i brosiectau.

### Diffinio gwerth cymdeithasol

Yng Nghyngor Sir y Fflint, o safbwynt sector cyhoeddus, diffinnir gwerth cymdeithasol fel defnyddio adnoddau prin yn effeithiol, gan edrych y tu hwnt i'w gwerth ariannol er mwyn sicrhau buddion ychwanegol i'r gymuned ehangach. Bob tro y caiff punt ei gwario ar ddarparu gwasanaeth neu brosiect adeiladu, mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried beth y gellir ei gyflawni yn ogystal â thelerau'r contract er mwyn darparu buddion llesiant i'r gymuned.

### Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael

Mae gwerth cymdeithasol yn addas iawn ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol gan ei fod yn creu cymhelliant a brwdfrydedd ymhlith pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn eu hysgogi i gyflawni mwy er budd cymunedau. Mae Cyngor Sir y Fflint yn nodi bod angen gwreiddio gwerth cymdeithasol ym mhob rhan o'r sefydliad fel un llais. Mae cael strategaeth gwerth cymdeithasol sy'n berthnasol i bob portffolio gwasanaethau yn sicrhau bod contractwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwerth cymdeithasol yn Sir y Fflint, ac yn cyflwyno cynigion am waith ar sail hynny. Mae cyfathrebu clir a chydweithredu effeithiol wedi bod yn hollbwysig rhwng Cyngor Sir y Fflint a sefydliadau contractio er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o ganlyniadau gwerth cymdeithasol i gymunedau.

## Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Mae Cartref Gofal Marleyfield yn enghraifft unigryw oherwydd cafodd ei adeiladu yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19. Er gwaetha'r amgylchiadau anodd, mae Cyngor Sir y Fflint yn falch o'r canlyniadau a'r ffaith ei fod wedi creu cyfleusterau 'heb eu hail'. Roedd y contract yn werth cyfanswm o £8.5 miliwn, a'r targed oedd darparu gwerth £430,000 o fuddion gwerth cymdeithasol. Rhagorodd Cyngor Sir y Fflint ar y targed hwn, ac arweiniodd y contract yn dilyn hyn at ddatgloi £1.3 miliwn yn rhagor o werth cymdeithasol drwy gynlluniau megis prentisiaethau, hyfforddeiaethau, cyfleoedd cyflogaeth amser llawn ar gyfer trigolion lleol nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant cyn hyn (NEET), gwario dros £2 filiwn mewn cadwyni cyflenwi lleol, a chwblhau 264 awr o amser gwirfoddoli staff er mwyn cefnogi prosiectau cymunedol lleol, 60 awr yn cynorthwyo pobl leol i gael gwaith drwy gynlluniau cyflogadwyedd, 97% o wastraff wedi'i ailgyfeirio o safleoedd tirlenwi, ac arbedion eraill yn ymwneud â dŵr a lleihau carbon. Roedd y canlyniadau mwy ymarferol yn cynnwys cyfrannu dodrefn awyr agored a gweithio gyda'r theatr leol i roi rhoddion i deuluoedd agored i niwed. Ffurfiwyd cysylltiad digidol rhwng disgyblion ysgol gynradd leol a phreswylwyr Marleyfield ar gyfer prosiect pontio'r cenedlaethau, gan arwain at ddysgu ar y cyd a pharch rhwng y ddwy genhedlaeth. Yn ychwanegol at hyn, roedd rhaglen Blociau Adeiladu Rhithwir ar gyfer gofalwyr yn canolbwyntio ar lesiant, gyda phobl ifanc ddi-waith yn yr ardal leol a oedd yn mynd i'r afael â materion cyflogadwyedd a llesiant, yn cael cymorth i ysgrifennu CV i'w helpu i gael profiad gwaith.

## Ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi

Mae Marleyfield yn enghraifft o ymgysylltu'n llwyddiannus â'r farchnad gyflenwi. Priodolir elfen allweddol o'i lwyddiant i wrando ar gyflenwyr yn ystod digwyddiadau rheolaidd i'r gadwyn gyflenwi, lle cafwyd trafodaethau manwl am werth cymdeithasol. Roedd contractwyr haen 1 yn dal dyfarniadau cadwyn gyflenwi, ac yn yr achos hwn roeddent yn dangos canlyniadau gwerth cymdeithasol penodol i is-gontractwyr. Fodd bynnag, gall terfynau tynn wneud yr her o wreiddio gwerth cymdeithasol yn anos, ac mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw ymrwymiad ar y cyd rhwng y cleient a'r farchnad gyflenwi.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwerthfawrogi ei aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac mae Neil Ayling yn cadeirio Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru. Mae ei rôl yn anarferol i rywun sydd â chefndir mewn gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n tystio i ymrwymiad y rhanbarth i ddatblygu gwerth cymdeithasol. Caiff cynlluniau a blaenoriaethau'r Cyngor eu llywio gan ofynion deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n galw am feddylfryd hirdymor a gwreiddio egwyddorion er mwyn goresgyn problemau cyflenwi gwasanaeth. Mae'r Ddeddf wedi bod yn gyfrwng i Gyngor Sir y Fflint wella ei ganlyniadau gwerth cymdeithasol, gan ddarparu fframwaith clir ar gyfer deall beth yw

llesiant a sut i’w wreiddio. Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu ei fod yn helpu i wella bywydau a llesiant dinasyddion, unigolion, a theuluoedd mewn cynghorau eraill.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau’r daith gwerth cymdeithasol

1. **Siarad ag un llais fel sefydliad**, beth bynnag eich math neu eich maint – datblygu safbwynt unedig ynglŷn â gwerth cymdeithasol ac ymrwymo i ddull gweithredu, gan ei fod yn gallu cael gwared â llawer o drafodaethau diangen neu 'fân ryfeloedd'.
2. **Gwrando ar y gymuned a’i chynnwys**, gan sicrhau eich bod yn deall ei blaenoriaethau. Gweithio ar y materion hyn yn hytrach na phrosiectau a allai ddatblygu i fod yn 'eliffantod gwynion' ymhen pum i ddeng mlynedd.
3. **Gweithio mewn partneriaeth** – gwrando ar bawb sy’n ymwneud â darparu’r gwasanaethau pwysig hyn, gan fod pob safbwynt yn bwysig. Mae perchnogaeth a datrys problemau ar y cyd yn fwy effeithiol na dull gweithredu unigol. Mae gweithio ar y cyd yn aml yn arwain at well dealltwriaeth.

**Os hoffech wybod rhagor am ymrwymiad Cyngor Sir y Fflint i werth cymdeithasol cliciwch yma.**

## Achos 6: Seilwaith – National Highways (Safbwynt Caffael)

Cyfweliad gyda Jo Wilkes, Pennaeth Caffael, National Highways.

### Cyflwyniad

Mae National Highways yn rheoli ac yn gwella traffyrdd a phrif ffyrdd dosbarth A yn Lloegr, gyda'r bwriad o ddarparu siwrneiau mwy diogel, dirwystr, a dibynadwy i ddefnyddwyr. Mae'n credu bod cyflenwyr yn hollbwysig i'w lwyddiant ac er mwyn darparu siwrneiau diogel a dibynadwy i ddefnyddwyr ffyrdd. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ei gadwyn gyflenwi yn amrywio'n fawr, ac mae'n disgwyl i gyflenwyr gefnogi blaenoriaethau amgylcheddol yn ymwneud â defnyddio, cynhyrchu, a chymunedau cynaliadwy. Mae National Highways hefyd yn ceisio hybu arferion gwaith teg er mwyn atal caethwasiaeth fodern, gan annog tryloywder gan gyflenwyr.

### Diffinio gwerth cymdeithasol

Mae National Highways yn ffafrio'r term 'effaith gymdeithasol' yn hytrach na 'gwerth cymdeithasol' oherwydd ei fod yn credu ei fod yn canolbwyntio mwy ar weithredu. Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â sicrhau bod pob punt o arian trethdalwyr sy'n cael ei gwario yn sicrhau'r gwerth economaidd gorau yn y gymuned, ond mae'r cyfeiriad at effaith gymdeithasol yn sicrhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth i ffyrdd, a hefyd i'r gymuned leol. Mae National Highways yn ceisio gweithio gyda phartneriaid sydd wedi ymrwymo o ddifri i ymuno ag ef ar ei daith i sicrhau mwy o effaith gymdeithasol.

### Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Yn National Highways, mae gwerth cymdeithasol yn amrywio o'r naill brosiect i'r llall. Gan fod y busnes yn ymwneud â chreu ffyrdd newydd, mae'n hanfodol gwrthweithio'r allyriadau carbon sy'n deillio o hynny, er enghraifft, drwy blannu mwy o goed i wella bioamrywiaeth. Fel rhan o gynlluniau'r sefydliad ar gyfer 2030, mae National Highways yn bwriadu plannu tair miliwn yn rhagor o goed ac mae'n rhoi contractau i nifer o fentrau cymdeithasol i'w helpu i wneud hyn.

Cynllun arwyddocaol arall yw darparu cyfleoedd gwaith i gyn-filwyr, sy'n cael eu cydnabod fel unigolion a allai fod yn cael anhawster â chyflyrau fel anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Mae rhoi gwaith iddyn nhw yn plannu coed yn helpu i'w hailintegreiddio i'r gweithle a gweithio fel rhan o dîm. Mae National Highways hefyd yn rhoi contractau i sefydliadau sy'n gweithio gyda chyn-droseddwyr, â'r nod o hwyluso'r broses o fynd yn ôl i waith. Caiff arwyddion ffyrdd eu cyrchu gan gyflenwyr sy'n cyflogi cyn-filwyr, cyn-filwyr anabl, a chymunedau anabl eraill. Mae National Highways yn dweud ei bod yn hollbwysig rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned mewn ffordd weithredol, gan sicrhau mwy o effaith gymdeithasol.

## Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn DPS a meini prawf gwerthuso

Dechreuodd y daith gwerth cymdeithasol yn 2019. Gan ddefnyddio Nodyn Polisi Caffael (PPN) 06/20 fel pwynt cyfeirio ar gyfer Fframwaith Cyflawni Cynllun gwerth £3.6 miliwn, ychwanegwyd cwestiwn gwerth cymdeithasol at y ddogfen dendr. Mae National Highways yn dadlau bod gwerth cymdeithasol yn hollbwysig, ond cafodd ei herio i ddechrau gan eraill y tu allan i faes caffael yn y sefydliad, ac roedd cyflenwyr hefyd yn cael anhawster i fynegi gwerth cymdeithasol mewn cynigion tendr. Roedd yn gromlin ddysgu i bawb, ac ar ôl ychydig flynyddoedd o ymgysylltu â chyflenwyr, mae'r effaith wedi bod yn sylweddol – er enghraifft, mae 1400 o brentisiaethau wedi'u creu ers hynny. Mae'r **System Brynu Ddynamig** (DPS) neu'r rhestr o gyflenwyr a ffefrir yn golygu ei bod yn haws cyrraedd mentrau cymdeithasol. Y nod yw symleiddio contractau ar gyfer busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol. Un dull o wella canlyniadau gwerth cymdeithasol yw ystyried pwysoliad meini prawf gwerthuso. Mae PPN 06/20 yn awgrymu y dylai 10% o'r meini prawf sgorio fod ar gyfer gwerth cymdeithasol. Yn aml, dyma'r ffactor sy'n galluogi rhywun i ddewis rhwng cwmnïau sy'n gwneud cais, oherwydd mae'n bosibl nad oes llawer o wahaniaeth rhyngddynt o ran ansawdd. Yn hytrach na 10%, mae'r gwerth cymdeithasol erbyn hyn yn aml yn 15-20% o'r meini prawf gwerthuso. Mae mecanweithiau sgorio wedi esblygu hefyd – yn 2019, pe bai cyflenwyr yn cyflawni 50% o'r canlyniadau dymunol, byddent yn cael sgôr dda. Heddiw, mae'r disgwyliadau'n llawer uwch, gan fod llawer o gyflenwyr yn gallu cyflawni llawer mwy.

## Ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi

Mae'r achos hwn yn dangos pwysigrwydd cynllunio ymgysylltu cynnar effeithiol â'r gadwyn gyflenwi. Mae National Highways yn cynnig clinigau tendro er mwyn ymgysylltu'n well â chyflenwyr a gwella eu dealltwriaeth o werth cymdeithasol. Drwy'r digwyddiadau hyn, mae wedi dysgu bod gan gyflenwyr yn aml arbenigedd mewn darparu gwerth cymdeithasol. Mae ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi yn aml yn anodd, ac mae ymgysylltu â mentrau cymdeithasol wedi profi'n anoddach byth, ac yn galw am ymdrech fawr gan bawb. Ychydig o amser rhydd sydd gan lawer o berchnogion mentrau cymdeithasol, gan fod trosiant eu busnes yn isel a'u bod yn gorfod jyglo swyddi eraill hefyd yn ystod y dydd. O ganlyniad, mae National Highways yn cynnig clinigau tendro ar benwythnosau a gyda'r nos. Mae'n eu hybu fel cyfle i ddysgu ac achlysuron cymdeithasol, ac mae'r ymdrech yn talu ar ei chanfed. Mae clinigau tendro yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd i gyflenwyr, yn enwedig cyflenwyr llai, er enghraifft sut i lenwi cyflwyniadau masnachol, cael yr yswiriant iawn, neu ddefnyddio taenlenni Excel. Mae cyflenwyr at ei gilydd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cyfleoedd dysgu.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Gwneud yr enillion cyflym yn gyntaf**. Gellid cyrchu eitemau gwerth isel megis deunydd ysgrifennu neu gynnyrch glanhau gan fenter gymdeithasol, sy'n aml yn cynnig llawer mwy o werth am arian na chyflenwyr prif ffrwd.

2. **Siaradwch â'ch cadwyn gyflenwi** – efallai y byddwch yn synnu cymaint mae eich cyflenwyr yn ei wneud yn barod, er enghraifft cefnogi'r gymuned leol, gweithio gyda'r tîm pêl-droed lleol, neu goleg lleol. Manteisiwch ar waith eich cyflenwyr a chydweithiwch â nhw, oherwydd mae hyn yn gallu bywiogi'r tîm ac annog meddwl y tu allan i'r bocs.
3. **Codi cwestiwn ynglŷn â gwerth cymdeithasol** – dylai cwmnïau sy'n cynnig am waith holi'r cleient beth sy'n bwysig iddo. Er enghraifft, ar beth rydych chi'n canolbwyntio er mwyn darparu gwerth cymdeithasol, neu beth sy'n bwysig i dîm y prosiect hwn? Mae cyflenwyr yn aml yn cynnig enghreifftiau diddorol, ond mae'n bosibl na fydd y rhain yn gydnaws ag amcanion y cleient.

**Gallwch ddarganfod rhagor am ddull caffael National Highways yma.**

# Achos 7: Deunydd Pecynnu Cynaliadwy – Y Bathdy Brenhinol (Safbwynt Caffael)

Cyfweliad gyda Stephen Pickard, Rheolwr Cyrchu Strategol, Y Bathdy Brenhinol

## Cyflwyniad

Y Bathdy Brenhinol yw'r cyfleuster bathu arian mwyaf yn y byd, a'r un mwyaf datblygedig yn dechnegol, ac mae wedi'i leoli yng Nghymru. Mae'n cynhyrchu dros 3.3 biliwn o ddarnau arian a darnau gwag bob blwyddyn, ynghyd â medalau ac eitemau casgladwy eraill ar gyfer dros 60 o wledydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu o Drysorlys Ei Fawrhydi yn gyfrifol am Gronfa Fasnachu'r Bathdy Brenhinol a'i is-gwmnïau, The Royal Mint Limited ac Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol. O ran dulliau caffael y bathdy, mae dyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus, gan sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, a gwerth am arian. Mae'r achos hwn yn edrych sut y gwnaeth y bathdy gymhwyso egwyddorion gwerth cymdeithasol ar gyfer caffael deunydd pecynnu newydd arloesol gan gyflenwyr lleol.

## Diffinio gwerth cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol yn gydnaws iawn â gwerthoedd y Bathdy Brenhinol fel sefydliad. Wrth gyfeirio at werth cymdeithasol, mae'n canolbwyntio ar yr hirdymor a'r darlun mwy o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gaffael, sy'n cynnwys canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd. Defnyddir y termau cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol yn aml i olygu'r un peth. Fodd bynnag, mae gwerth cymdeithasol yn mynd ychydig ymhellach drwy wella canlyniadau er budd y gymdeithas ehangach. Mae'r Bathdy Brenhinol yn diffinio ei uchelgais yn benodol drwy Bolisi Cyrchu Cyfrifol, gan ganolbwyntio ar bedair thema neu golofn ategol: tryloywder y gadwyn gyflenwi; iechyd, diogelwch, a'r amgylchedd; gwerthfawrogi pobl a chymunedau; ac uniondeb wrth wneud busnes. Mae'r colofnau hyn yn feysydd ffocws ar gyfer diwydiannau penodol, sy'n galluogi'r Bathdy i weld pa ffactorau yn union y gall eu targedu a chyflawni mewn cysylltiad â hwy er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol.

## Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau a phrosesau caffael

Yn y Bathdy Brenhinol, mae gwerth cymdeithasol yn rhan annatod o'r gofyniad, y fanyleb, a'r meini prawf dyfarnu ym mhroses dendro'r tîm caffael. Caiff gwerth cymdeithasol ei ystyried hyd yn oed cyn i'r broses gaffael ddechrau – deall pam y mae angen caffael nwyddau a gwasanaethau o gwbl, ac yna archwilio'r atebion a gynigir gan y farchnad gyflenwi. Mae'r tîm caffael yn y Bathdy Brenhinol wedi mapio pedair colofn y Polisi Cyrchu Cyfrifol yn erbyn model gwerth cymdeithasol Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y broses gaffael yn gydnaws â gwerthoedd y bathdy ac amodau'r farchnad gyflenwi. Mae defnyddio **Model Gwerth Cymdeithasol** Llywodraeth y DU yn golygu bod cynigwyr yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd â'r cwestiynau, ac mae'r bathdy'n gobeithio y bydd hyn yn golygu y bydd yn

derbyn cynigion o ansawdd uwch. Yng ngham rheoli contractau'r cylch caffael, mae gwerth cymdeithasol yn faen prawf allweddol ar gyfer cynllunio a mesur perfformiad allyriadau ac, yn gyffredinol, y buddion cymdeithasol a ddarperir. Mae hyn yn sicrhau bod y Bathdy Brenhinol yn cydnabod y potensial mawr y gellir ei ddatgloi drwy dendrau.

## Ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi leol

Yn y Bathdy Brenhinol, rheolir caffael drwy gyrchu arbenigwyr a thimau caffael gweithredol, sydd gyda'i gilydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi. Mae deunydd pecynnu yn un maes lle mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud wrth ymgysylltu â'r farchnad. Dangosodd ymchwil desg cychwynnol y mathau o fusnesau a chyrff masnach sy'n gweithredu yn y diwydiant pecynnu, gan helpu i fapio potensial y gadwyn gyflenwi. Mae ymgysylltu â'r farchnad wedi digwydd ar sawl ffurf yn y bathdy, ond ar gyfer yr enghraifft becynnu, cynhaliwyd digwyddiad gweithdy cyrchu cyfrifol, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol. Gwahoddwyd cyflenwyr strategol ac allweddol i'r digwyddiad, ac roedd trafodaethau mewn grwpiau bach yn galluogi dadl ar bob un o golofnau'r bathdy. Y canlyniad oedd proses fwy tryloyw, â'r tîm caffael a chyflenwyr yn dysgu gan ei gilydd ynglŷn â chynlluniau gwerth cymdeithasol sy'n mynd rhagddynt ac yn adnabod bylchau yr oedd angen eu llenwi.

## Gwerth cymdeithasol yn ymarferol

Roedd y Bathdy Brenhinol wedi bod yn defnyddio'r un mathau o baledi a blychau pren am ddegawdau, ond roedd y cyflenwyr yn dweud yn aml bod y cynnyrch wedi'u dylunio'n rhy gymhleth, gan ychwanegu cost ddiangen. Cyrchwyd pren haenog ar gyfer blychau cyffredin, ond nid oedd y deunydd hwn yn cael ei weithgynhyrchu yn y Deyrnas Unedig, ac roedd hynny'n golygu bod gwerth cynhyrchu yn cael ei ddisbyddu a'i golli y tu allan i'r DU – gan golli gwerth cymdeithasol. Roedd allyriadau carbon o ganlyniad i deithio yn achosi risg yn y gadwyn gyflenwi. Gan ddefnyddio proses deialog gystadleuol, gwahoddwyd cyflenwyr lleol i gynnig atebion, a fyddai'n cynnig gwell cynaliadwyedd a chanlyniadau gwerth cymdeithasol i'r bathdy. Yn dilyn cynigion arloesol gan arbenigwyr deunydd pecynnu pren, rhoddodd y Bathdy Brenhinol gontract i gwmni o dde-orllewin Cymru, sy'n cyrchu ei holl goed o'r DU. Mae hyn yn golygu bod yr holl ddeunyddiau crai a'r gwerth cynhyrchu o ddeunydd pecynnu a chludo pren y bathdy yn cael ei gadw yn economi'r DU, gan arwain at reoli coetir yn ofalus: caiff mwy o goed eu plannu nag sy'n cael eu torri. Yn ogystal, mae'r bathdy wedi gwella dulliau rheoli dŵr, pwyslais byd-eang yn y diwydiant bathu arian. Drwy ddefnyddio llai o ddeunyddiau (pren a metel) a llai o beirianneg, mae'r gadwyn gyflenwi bellach yn creu swyddi yng Nghymru ac yn y DU, â chyflenwyr yn cefnogi mentrau cymunedol lleol.

## Cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nid yw'r Bathdy Brenhinol yn un o'r 48 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae'n gwerthfawrogi'r Ddeddf a'r holl fuddion amrywiol y mae'n

eu cynnig i bobl Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn bodoli er mwyn gwella bywydau a ffyniant gweithwyr y bathdy, eu ffrindiau, teuluoedd, plant, a chenedlaethau'r dyfodol. Felly, er nad yw'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffurfiol, mae blaenoriaethau cyrchu cyfrifol y Bathdy Brenhinol yn gydnaws at ei gilydd ag egwyddorion cyffredinol y ddeddf. Mae'r bathdy'n parhau i ystyried y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddylai helpu i greu llwybr ar gyfer pob sefydliad sy'n dymuno amddiffyn a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

## Tri awgrym da ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Diffinio gwerth cymdeithasol ar gyfer eich sefydliad eich hun**, gan fod gan lawer o ddiwydiannau feysydd ffocws penodol, e.e., Lleihau Gwastraff Sero Net, Cyflogaeth Foesegol, ac yn y blaen.
2. **Hyfforddi eich tîm cyfan i dderbyn cyfrifoldebau**. Mae angen eu paratoi i gyfathrebu amcanion, gwerthuso cynigion, a gwneud penderfyniadau sy'n hybu eich cynnydd ar y daith gwerth cymdeithasol.
3. **Gwneud gwerth cymdeithasol yn rhan o bopeth rydych yn ei wneud**. Os nad dim byd arall, dylai fod ar agenda pob cyfarfod gyda chyflenwyr a phob cyfarfod gyda rhanddeiliaid – dylech hefyd ei ymgorffori yn system olrhain Cyflawni Buddion eich tîm.

# Crynodeb o ganfyddiadau'r achosion

**Tabl 4: Crynodeb o'r canfyddiadau yn ôl thema'r ymchwil**

| Themâu | Yr hyn a ddangoswyd gan yr achosion |
|---|---|
| Diffinio Gwerth Cymdeithasol | Mae'r cyfweliadau'n dangos diffiniadau amrywiol o werth cymdeithasol. Er hyn, mae'r pwyntiau allweddol a nodwyd gan bob un yn cynnwys sicrhau bod eich diffiniad yn gydnaws ag amcanion strategol eich sefydliad a chyfathrebu hyn yn glir i randdeiliaid, yn enwedig y rhai sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi. |
| Gwerth Cymdeithasol yn Ymarferol | Dylai gwerthoedd cymdeithasol fod yr un mor bwysig i unrhyw sefydliad â'i frand, gweithwyr, a nodau masnachol. Gallai enghreifftiau o werth cymdeithasol gynnwys cyflogi grwpiau cymunedol sydd dan anfantais, lleoliadau, profiad gwaith, hyfforddiant, talu cyflog byw, gwirfoddoli yn y gymuned, cefnogi elusennau, cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant, lliniaru caethwasiaeth fodern, a chyrchu'n lleol. |
| Gwreiddio Gwerth Cymdeithasol mewn Prosesau Caffael | Y man cychwyn er mwyn gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael yw deall anghenion cymunedau lleol. Fodd bynnag, fel y dangoswyd gan ANTZ (Achos 2), os nad yw'r sefydliad yn tyfu'n fasnachol, ni fydd yn tyfu'n gymdeithasol. Bydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i strwythuro o gwmpas yr unigolyn yn darparu gwell canlyniadau i bawb. |
| Goresgyn Heriau wrth Gaffael | Ar hyn o bryd nid oes llawer o ddealltwriaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni â gwerth cymdeithasol, a gall canlyniadau anfwriadol gweithredoedd arwain at ganlyniadau negyddol. Gellir goresgyn hyn drwy hyfforddi gweithwyr (gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chaffael), gwrando ar y farchnad gyflenwi, ac aros yn agos at gymunedau er mwyn deall eu hanghenion, gan dderbyn y bydd y rhain yn newid dros gyfnod. Deall eich materion ariannol a'ch gorbenion er mwyn sicrhau nad ydych yn tangyflawni. |
| Gwerth BBaCh a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol yn y Gadwyn Gyflenwi | Mae mentrau cymdeithasol, elusennau, a busnesau bach yn anhepgor ac yn aml iawn dyma lle gellir sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf. Weithiau caiff eu gwasanaethau eu hecsbloetio ac nid eu parchu (gwasanaethau am ddim). Mae'r grwpiau hyn yn hanfodol er mwyn amddiffyn cymunedau sydd ar y cyrion. |

| Themâu | Yr hyn a ddangoswyd gan yr achosion |
|---|---|
| Ymgysylltu â'r Farchnad Gyflenwi | Dylech adeiladu capasiti yn eich cadwyn gyflenwi er mwyn darparu gwell gwerth cymdeithasol – drwy ddiwrnodau ymgysylltu â chyflenwyr, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, cymorthfeydd tendrau, a llwyfan digidol ar gyfer cyfathrebu'n rhwydd. Dylech annog cyflenwyr i ddysgu gan eu cymheiriaid a bod yn barod i addysgu sgiliau sylfaenol. |
| Y Graddau y caiff Gwerth Cymdeithasol ei Lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith ac iaith gadarn er mwyn sicrhau gwell canlyniadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn defnyddio gwerth cymdeithasol er budd hirdymor pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn gallu bod yn gymwys, ac maent yn gymwys, y tu allan i Gymru. |

## Cychwyn ar y daith gwerth cymdeithasol

Mae cyfweliadau'r astudiaethau achos yn nodi nifer o ffactorau llwyddiant hollbwysig er mwyn gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau a chontractau. Un cyngor cyffredin a nodwyd gan bob un o'r rhai a gyfwelwyd yw'r angen am uchelgais a chydnabod arferion sy'n bodoli'n barod. Fel y nodwyd yn achos Bute Energy (Achos 3), nid oes angen ailddyfeisio'r olwyn. Dylai sefydliadau wella eu dealltwriaeth o werth cymdeithasol yn rheolaidd er mwyn meithrin diwylliant llesiant; nid cyfrifoldeb un unigolyn neu ychydig o unigolion yw hyn. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb gyda'n gilydd i gyflawni mwy â llai. Mae'r prif gyngor i gyflenwyr yn cynnwys gwrando ar y gymuned, a pheidio ag ofni gofyn cwestiynau am flaenoriaethau gwerth cymdeithasol.

Mae'r rhestr olaf hon o awgrymiadau yn darparu rhagor o ganllawiau i dimau caffael a chyflenwyr sy'n cychwyn ar y daith gwerth cymdeithasol.

### Crynodeb o'r awgrymiadau ar gyfer yr ochr brynu a'r ochr gyflenwi

- Creu cynnig clir ar gyfer gwerth
- Siarad ag un llais fel sefydliad
- Mae adnabod a deall eich marchnad yn hollbwysig
- Gweithio mewn partneriaeth
- Rhoi fframwaith yn ei le
- Diffinio gwerth cymdeithasol ar gyfer eich sefydliad chi
- Deall eich maes nwyddau a chysoni eich gofynion gwerth cymdeithasol
- Ffurfio perthnasoedd pwysig â rhanddeiliaid a dal i'w datblygu
- Cefnogi a gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi er mwyn cyrraedd y targedau

- Cofio bod gwerth cymdeithasol, os na chaiff ei reoli’n dda, yn gallu cael ei weld fel risg
- Galw ar arbenigwyr allanol os oes angen
- Gwobrwyo’r rhai sy’n cyflawni’n dda

# Casgliad

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd dangos sut y gellir gwneud gwerth cymdeithasol yn rhan o brosesau caffael yng Nghymru drwy dynnu sylw at saith astudiaeth achos sy’n dangos 'arferion da'. Yn draddodiadol, mae gwerth cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ganlyniad i ddyfarnu’r contract, ac mae maint y gwerth sy’n bosibl yn amrywio yn ôl categori gwariant. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r gwahanol drefniadau caffael sy’n dibynnu ar werthoedd trothwy, mae platfform ar-lein CYD yn cynnig cynllunydd taith gaffael i lywio gweithwyr caffael a gweithwyr proffesiynol eraill nad ydynt yn gweithio ym maes caffael (CYD: cynllunydd caffael). Mae’r enghreifftiau o achosion wedi dangos bod modd gwreiddio gwerth cymdeithasol yn ystod gwahanol gamau o’r broses gaffael neu drwy ddefnyddio model CIPS, y cylch caffael. Gall hyn gynnwys yn y camau masnachol a chyrchu, wrth benderfynu ynglŷn â’r broses gaffael (h.y., prynu uniongyrchol neu fframwaith), ac ar adeg negodi cyn dyfarnu’r contract. Fodd bynnag, roedd yn well gan National Highways ddefnyddio’r term effaith gymdeithasol, y gellir ei rhagfynegi ond sy’n debygol o gael ei sylweddoli’n llawnach yn y cam adolygu a gwerthuso’r contract.

Mae’r enghreifftiau o arferion gorau wedi eu cyrchu o Gymru a’r DU. Dewiswyd saith cyfweliad achos o sectorau amrywiol, a oedd yn cynnig cydbwysedd rhwng safbwyntiau ochr y prynwr a’r cyflenwr. Mae’r Bathdy Brenhinol ac ANTZ yn cynnig safbwynt hybrid gan fod gan y sefydliadau hyn swyddogaethau caffael gweithredol, ac maent yn gyflenwyr i gleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai’r cyfweliadau fideo sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn alluogi pobl i ddeall y prif elfennau ym mhob achos yn well ac yn gyflymach.

Mae’r adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at rai o’r prif broblemau sy’n wynebu timau caffael a’r gadwyn gyflenwi, ac at syniadau posibl er mwyn eu goresgyn. Roedd achos ANTZ UK yn dangos bod bwriadau da, pan nad ydynt yn cael eu rheoli’n briodol, yn gallu achosi niwed na ellir ei ddad-wneud ac effaith negyddol sy’n para’n hir. Mae ANTZ yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu clir rhwng rhanddeiliaid a sicrhau bod y budd i gymunedau wrth graidd pob penderfyniad sy’n cael ei wneud.

Mae’n bwysig cydnabod mai Cymru yw’r wlad gyntaf yn y byd i gynnwys llesiant mewn deddfwriaeth a chanolbwyntio ar genedlaethau’r dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn darparu fframwaith cadarn â saith nod clir a phum ffordd o weithio er mwyn cyflawni’r rhain. Mae Deddf Caffael 2023, sy’n gymwys yng Nghymru a Lloegr, yn hybu proses gaffael symlach a mwy effeithiol, gwell llinellau amser, a mwy o dryloywder rhwng yr ochr brynu a’r ochr gyflenwi. Er mwyn gwerthfawrogi’r potensial ar gyfer gwerth cymdeithasol yn iawn a’r effaith y gall ei gael ar gymunedau lleol, mae’r adroddiad hwn yn cynnig nifer o awgrymiadau er mwyn sicrhau’r arferion gorau. Mae’r sector cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu cyfnod ariannol anodd iawn, â llai o arian yng nghyllidebau’r sector cyhoeddus, sy’n

golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach bod pob punt sy’n cael ei gwario yn cael yr effaith fwyaf (Davies, 2023). Mae cyflwr economi Cymru, y ganran uchel o blant sy’n wynebu tlodi eithafol, a’r brys i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd yn golygu na fu adeg bwysicach erioed i wella gwerth cymdeithasol a chanlyniadau llesiant drwy gaffael.

Er bod y term 'gwerth cymdeithasol' yn cael ei dderbyn ledled y DU, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, yma yng Nghymru y term sy’n cael ei ffafrio yw llesiant – er enghraifft, llesiant cymdeithasol, llesiant economaidd, neu lesiant amgylcheddol. Un sylw a wnaethpwyd yn ystod y cyfweliadau oedd bod trafodaethau yn canolbwyntio mwy ar gymhwyso’r ffyrdd o weithio yn hytrach na chyfeirio’n benodol at y saith nod llesiant, a allai fod yn arwydd bod angen gwneud rhagor o waith i dynnu sylw at amcanion neu nodau cenedlaethol Cymru. Mae cydweithredu, meddylfryd hirdymor, cynnwys ac atal i gyd yn dermau sy’n debyg i gyflawni y tu hwnt i’r contract – gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael. Ar y llaw arall, gallai cyflawni nodau llesiant wahaniaethu gan ddibynnu ar y categori gwariant sydd dan sylw: dim ond bwyd gafodd ei nodi fel categori gwariant a oedd yn mynd i’r afael â phob un o’r saith nod llesiant.

# Cyfeiriadau


Allen, B. (2021). **Broader outcomes in procurement policy – a case of New Zealand pragmatism.** Journal of Public Procurement, 21(3), tt.318-341

CIPS (2022). **CIPS Procurement Cycle.** Adalwyd o: **https://www.cips.org/intelligence-hub/procurement/procurement-supply-cycle**

Clifford, J. (2022). **A home for me? A comparative review of the value of different forms of permanence for children – Adoption, SGOs and Fostering.** Consortium of Voluntary Adoption Agencies. Adalwyd o: **https://www.sonnetimpact.co.uk/wp-content/uploads/2023/03/CVAA-The-value-of-adoption-report-final.pdf**

Davies, D. (2023). **Spending cuts will hit vulnerable, says finance minister.** BBC News. Adalwyd o: **https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-67010759**

Denny-Smith, G., Williams, M., Loosemore, M., Sunindijo, R.Y. a Piggott, L. (2024). **What social value do Indigenous contractors create?** Construction Management and Economics, 42(1), tt.16-34

Loosemore, M (2016). **Social procurement in UK construction projects**. International Journal of Project Management, 34(2), tt.133-144.

Llywodraeth Cymru (2021). **Cynllun Cyflawni'r Economi Sylfaenol.** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawnir-economi-sylfaenol**

Llywodraeth Cymru (2023). **Ymgynghoriad Cymru ar Gaffael Cyhoeddus Is-ddeddfwriaeth: Rhan 1.** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-cymru-ar-gaffael-cyhoeddus-is-ddeddfwriaeth-rhan-1-html**

O'Byrne, D., Lean, J., Moizer, J., Walsh, P., Dell'Aquila, E. a Friedrich, R., (2015). **Social enterprise in the European Union: A review of policy.** Social & Public Policy Review, 9 (1), tt.13-29.

Selviaridis, K., Luzzini, D., a Mena, C. (2023) **How strategic public procurement creates social value: Evidence from UK anchor institutions**. Public Management Review.

Shelton, K.H., Merchant, C., a Lynch, J. (2020). **The Adopting Together Service: how innovative collaboration is meeting the needs of children in Wales waiting the longest to find a family.** Adoption and Fostering 44(2), tt.128-141.

Social Value Portal (2020). **The National Social Value Measurement Framework for Wales (National TOMs Wales): Part 2 – General Guidance.** Adalwyd o: **https://socialvalueportal.com/wp-content/uploads/2020/11/National-TOMs-Wales-Guidance-Part-2-v2.pdf**

Social Value UK, ar gael yn; **What is Social Value? Social value definition and meanings (socialvalueuk.org)**

SolAbility (2023). **The Sustainable Competitiveness Report: 12th Edition.** Adalwyd o: **https://solability.com/the-global-sustainable-competitiveness-index/the-index/social-capital**

Vluggen, R., Kuijpers, R., Semeijn, J. a Gelderman, C.J., (2020). **Social return on investment in the public sector.** Journal of Public Procurement, 20(3), tt.235-264.

# Atodiad: Safbwynt o Awstralia

Mae Martin Loosemore, Athro Nodedig yng Nghyfadran Ddylunio Prifysgol Technoleg Sydney (UTS), wedi cyhoeddi llawer o ddeunydd am gaffael cymdeithasol. Mae'n diffinio gwerth cymdeithasol fel y gwahaniaeth net a wneir yn y cymunedau lle rydych yn gweithredu – yn y tymor byr, canolig a hir. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cymuned' yn cyfeirio at y rhanddeiliaid allanol a mewnol a gaiff eu heffeithio gan weithgareddau sefydliad (hynny yw, unigolion yn y gymuned, eu teuluoedd a'u ffrindiau, y gymdeithas ehangach, a'ch gweithwyr cyflogedig). Mae Loosemore yn cynnig bod modd creu gwerth cymdeithasol mewn llawer o ffyrdd, fel y nodir yn Nhabl 1 isod.

### Tabl 1: Egwyddorion gwerth cymdeithasol yn Awstralia

| Egwyddor gwerth cymdeithasol | Gweithgaredd gwerth cymdeithasol |
|---|---|
| Darparu cyflogaeth /cyfleoedd busnes | Sefydliadau sy'n cynrychioli lleiafrifoedd a'r trydydd sector a busnesau sy'n canolbwyntio ar helpu grwpiau sydd dan anfantais, gan ddarparu swyddi a hyfforddiant i grwpiau sydd dan anfantais, megis pobl anabl, pobl Frodorol, ffoaduriaid, pobl ifanc, a chyn-droseddwyr. |
| Arferion busnes teg | Cyrchu cyfrifol a rheoli cadwyni cyflenwi, parchu sefydliadau masnachol a llafur, cyflog teg, perthnasoedd busnes teg, ac yn y blaen. |
| Hawliau dynol | Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth, parchu hawliau diwylliannol lleol, rhyddid i ymgysylltu a mynegi, atal caethwasiaeth fodern. |
| Arferion llafur | Darparu cyflogaeth, gweithle diogel ac iach, amodau gwaith a chyflogau da, cyfleoedd ar gyfer datblygu adnoddau dynol / hyfforddiant, cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, ac yn y blaen. |
| Materion amgylcheddol | Lleihau llygredd, allyriadau, a gwastraff. |
| Materion llywodraethu | Atebolrwydd, tryloywder, adroddiadau cywir, parchu'r gyfraith, cynnwys staff a rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau. |
| Cynnwys y gymuned | Gwirfoddoli corfforaethol, cefnogi elusennau lleol, rhoddion i achosion da. |

Mae Loosemore yn rhybuddio ei bod yr un mor bwysig ystyried canlyniadau negyddol posibl a sefyllfaoedd gwrthffeithiol, gan ddisgrifio'r rhain fel difuddiant (rhywbeth a fyddai wedi digwydd p'un bynnag), diwylliant (gwahaniaethau diwylliannol mewn safbwyntiau), dadleoli (y buddion y mae ymyriad yn eu dadleoli neu'n eu gwthio o'r neilltu), a cholli (colli budd dros gyfnod).

## Gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn tendrau a phrosesau caffael

Mae'n gyffredin i dimau caffael yn Awstralia gynnwys cymalau cymdeithasol yn eu contractau a'u tendrau cyflenwi. Yn debyg iawn i'r DU, mae cyflenwyr i fod i gael eu hysbysu ynglŷn â chanran y pwysoliad a ystyrir mewn penderfyniadau dyfarnu tendrau – rhywbeth nad yw'n digwydd bob amser yng Nghymru a'r DU. Mae'r dull gweithredu tryloyw hwn yn sicrhau bod contractwyr a'r gadwyn gyflenwi yn deall i ba raddau y mae angen iddynt feddwl am greu gwerth cymdeithasol yn eu busnesau perthynol.

Yn ôl Loosemore, mae dau brif fath o gymalau cymdeithasol yn cael eu mabwysiadu yn Awstralia: rhagnodol a seiliedig ar berfformiad, fel y disgrifir isod:

Mae **cymalau rhagnodol** yn nodi union swm y cynhyrchion/dangosyddion perfformiad allweddol (nifer y bobl a gyflogir; oriau neu wythnosau o hyfforddiant; niferoedd a hyfforddwyd mewn gwahanol gohortau, megis pobl anabl, cyn-droseddwyr neu bobl Frodorol; neu swm yr arian sy'n cael ei wario ar wasanaethau neu gynhyrchion penodol gan sefydliadau budd cymdeithasol fel Masnach Deg neu fusnesau Brodorol). Nid yw'r dull hwn o weithredu o'r brig i lawr, sy'n cael ei bennu gan y cleient, yn gadael llawer o le i gontractwyr arloesi ac ymateb i anghenion y gymuned. Dyma'r dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn Awstralia.

Mae **cymalau sy'n seiliedig ar berfformiad** yn nodi canlyniadau ac effeithiau cymunedol cyffredinol (megis lefelau llythrennedd uwch neu lai o droseddu/aildroseddu) ac yna'n gofyn i gyflenwyr ddisgrifio sut y byddant yn cyflawni ac yn mesur y canlyniadau hyn. Mae'n ddull gweithredu mwy hyblyg, o'r gwaelod i fyny, lle mae'n ofynnol i gyflenwyr arloesi ac ymgysylltu â'r gymuned. Cyfeirir at y dull gweithredu hwn yn aml fel cymalau buddion cymunedol.

## Ymgysylltu â'r farchnad gyflenwi

Mae Loosemore yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu capasiti mewn busnesau a chadwyni cyflenwi er mwyn darparu gwerth cymdeithasol, gan rybuddio y caiff hygrededd ei niweidio os na all arweinwyr busnesau gadw eu haddewidion. Mae dau brif ddimensiwn i hyn: Mae adeiladu capasiti mewn sefydliadau budd cymdeithasol yn golygu ei gwneud yn haws iddynt dendro am waith (drwy ddulliau megis dadfwndelu contractau, neilltuo, symleiddio tendrau a chyn-gymhwyso) a gwella eu capasiti i gystadlu'n effeithiol â chyflenwyr ac is-gontractwyr sydd wedi bod yn darparu nwyddau neu wasanaethau ers blynyddoedd. Gellir gwneud hyn drwy gynnal sesiynau gwybodaeth, sesiynau hyfforddiant a bŵt-camps i ddarpar gyflenwyr, a model canolfan ddeori fwy dwys o ran adnoddau sy'n darparu cefnogaeth weinyddol i gynorthwyo cyflenwyr i dendro am waith.

Nid adeiladu capasiti mewn cadwyni cyflenwi sy'n bodoli'n barod er mwyn creu gwerth cymdeithasol, lle gellir creu'r gwerth cymdeithasol mwyaf o bosibl, yw eu busnes creiddiol, ac o ganlyniad mae'n cymryd amser a gallai wynebu gwrthwynebiad. Mae Loosemore yn cynnig y bydd tua thraean o'r boblogaeth yn cymhwyso gwerth cymdeithasol o'u gwirfodd, ond bod tua'r un nifer yn debygol o wrthwynebu.

Yn olaf, mae Loosemore yn cynnig tri awgrym ar gyfer dechrau'r daith gwerth cymdeithasol

1. **Creu cynnig clir ar gyfer gwerth a dangos eich gallu i gyflawni**. Mae hyn yn golygu bod yn glir ynglŷn â'ch nodau, sicrhau eu bod o fewn eich dylanwad, deall beth sydd wedi ysgogi'r sefydliad i'w creu, monitro a mesur canlyniadau cymdeithasol yn systematig mewn ffordd resymol, seiliedig ar dystiolaeth, a rhesymegol ac yna eu cyfathrebu yn effeithiol.
2. **Cydnabod y gall gwerth cymdeithasol gael ei weld fel risg yn hytrach na chyfle** gan lawer. Helpu rhanddeiliaid i nodi, asesu, a lliniaru'r risgiau tra'n cynyddu'r cyfleoedd, gan droi gwerth cymdeithasol yn gyfle yn hytrach na risg.
3. **Gwobrwyo'r rhai sy'n darparu** drwy ddefnyddio cymhellion ac atgyfnerthu cadarnhaol.

## Manylion yr Awdur

Mae Dr Jane Lynch yn Athro mewn Caffael ar gyfer adran Logisteg a Rheoli Gweithrediadau (LOM), Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd ac mae'n arwain y Ganolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus. Mae ymchwil Jane yn amlddisgyblaethol, ac mae ganddi brofiad o ddarparu cefnogaeth amrywiol yn ymwneud â chaffael a chydweithredu i lywodraethau ac i'r sector preifat o ymchwil i addysgu gweithredol. Jane yw'r arweinydd ymarfer ar gyfer IRSPP (Astudiaeth Ymchwil Ryngwladol ar Gaffael Cyhoeddus), yr arweinydd strategol ar gyfer Labordy Caffael Infuse 2023 ac arbenigwr cydweithredu ac arweinydd effaith gymdeithasol ar gyfer prosiect LINC Multimorbidity. Bu Jane yn cefnogi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ag Adolygiad Caffael Adran 20 sy'n edrych i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn gwreiddio'r nodau llesiant mewn prosesau caffael.

## Diolchiadau

Diolch i Dr Amina Imam, Prifysgol Caerdydd a Nawajesh Khan, Prifysgol Caerdydd am gefnogi'r ymchwil hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

**Amanda Hill-Dixon**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

**info@wcpp.org.uk**

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru